



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 29AIN TACHWEDD, 2016

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Sion Owen

01286 679665

(Dosbarthwyd 21/11/16)

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
E. Selwyn Griffiths
Charles Wyn Jones
Michael Sol Owen

Gweno Glyn
Annwen Hughes
Dilwyn Morgan
Sedd Wag

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Lesley Day
Jean Forsyth
Dylan Fernley

Thomas G. Ellis
Anne Lloyd Jones

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Jason Humphreys

Llafur (1)

Y Cynghorydd Sion W. Jones

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellid eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar Fedi 20fed 2016 fel rhai cywir.

5. YMGYNGHORIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR 8 - 10 GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Derbyn sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

6. ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017

11 - 12

Diweddarau'r aelodau o'r gwaith paratoi sy'n digwydd ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2017

7. DATBLYGIAD MODERN.GOV

13 - 14

Diweddarau'r aelodau ar y gwaith mwyaf diweddar a gwahodd barn ar faterion i gael sylw

8. SIARTER AELODAU

15 - 56

Diweddarau'r pwyllgor ar y cais am y siarter

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 20/9/16

YN BRESENNOL: Thomas G. Ellis (Cadeirydd)
Lesley Day (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, Gweno Glyn, E. Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Jean Forsyth, Anne Lloyd Jones, Anwen J. Davies a Jason Humphreys

SWYDDOGION: Iwan Evans (Swyddog Monitro), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid) a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau).

HEFYD YN BRESENNOL: Dr Einir Young (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Michael Sol Owen a Sion W. Jones

1. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Lesley Day yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016-17

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2016 fel rhai cywir.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - drafft o'r adroddiad blynyddol sydd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 6 Hydref, 2016 yn rhoi diweddariad i aelodau am weithgareddau'r Pwyllgor yn 2015-16. Pwysleisiwyd fod distawrwydd cymharol y Pwyllgor mewn cyfnod ble mae safonau ymddygiad cyhoeddus yn ymddangos fel petai'n disgyn, yn adlewyrchu'n dda ar Aelodau'r Cyngor. Yn ogystal â hynny, pwysleisiwyd fod angen dangos arweinyddiaeth ac aros yn driw i egwyddorion Nolan.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Bod pryder ynglŷn â lefel dealltwriaeth aelodau a chlercod Cyngorau Cymuned o'r Cod Ymddygiad. Mewn ymateb atebodd y Swyddog Monitro fod hyfforddiant wedi ei gynnal i gyngorau cymuned, a bod copi o'r cod ymddygiad diweddaraf wedi ei ddosbarthu. Ychwanegodd fod hyfforddiant yn cael ei gynnig gan Un Llais Cymru yn ogystal. Nododd nad oedd problemau sylfaenol wedi dod i'r amlwg.
- Fyddai'n bosib cysylltu â'r Clercod Cyngorau Cymuned er mwyn cael darlun gwell o'r sefyllfa? Mewn ymateb gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i'r Aelodau dynnu ei sylw at unrhyw problemau penodol.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

5. ETHOLIADAU 2017

Cyflwynwyd - adroddiad cynnydd ar y paratodau ar gyfer etholiad 2017 yn dilyn sefydlu grŵp ffocws yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn. Adroddwyd fod 3 prif ffrwd i'r gwaith:

- Paratoi ymgeiswyr, gan bwysleisio ar godi ymwybyddiaeth a defnyddio data o gyfweiliadau datblygu Aelodau er mwyn gwella profiadau'r Aelodau fydd yn cael eu hethol yn 2017. Hefyd trefnu sesiynau yn fuan yn 2017 ar gyfer gwybyddu darpar ymgeiswyr.
- Rhaglen anwytho aelodau etholedig yn dilyn etholiad Mai 2017 a rhaglen hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn, gan anelu i gynnal sesiynau anwytho a hyfforddiant anffurfiol mewn arddulliau amrywiol.
- Cyfarpar electroneg, gan adrodd fod yr is-grŵp ar fin dechrau treialu gwahanol ddyfeisiadau electronig. Nodwyd hefyd fod y gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi bod yn gweithio ar ddarpariaeth ar-lein i Aelodau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Sut mae darparu ar gyfer darpar ymgeiswyr na fydd yn medru mynychu'r sesiynau gwybyddu? Atebodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod y wybodaeth sydd ar wefan y Cyngor wedi cael ei ddiweddarau, gan gynnig gwybodaeth gynhwysfawr. Croesawir unrhyw syniadau ar sut i ddenu mwy o sylw.
- Fod pecynnau i ddarpar ymgeiswyr wedi eu dosbarthu i'r rhannu trwy'r llyfrgelloedd cyn etholiad 2012 ac wedi bod yn llwyddiant. Nodwyd y sylw.
- Mynegwyd pryder o weld yr amser byr sydd rhwng yr etholiad a'r sesiynau anwytho y gallai fod yn anodd i Aelodau sydd newydd eu hethol yn 2017 drefnu amser i ffrwd o'r gwaith i fynychu'r sesiynau anwytho. Mewn ymateb nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod bwriad rhannu'r dyddiadau anwytho i ddarpar ymgeiswyr er mwyn eu rhagrybuddio a pharatoi petaent yn cael eu hethol.
- Dylid annog y grwpiau gwleidyddol i ystyried arddel system fentora drwy baru cynghorydd newydd gyda chynghorydd mwy profiadol.
- Byddai'n fuddiol trefnu bod cyfle i'r 75 Aelod gyfarfod yn anffurfiol er mwyn dysgu mwy am y gwahanol grwpiau a wardiau ac annog cydweithio.
- Fod peryg achosi cymhlethdod ac oedi pe bai dewis o ddyfeisiadau ar gael i Aelodau.
- Pwysleisiwyd fod angen hyfforddiant trwyadl i'r Aelodau newydd, yn enwedig ym maes TG. Atebodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod gwaith yn mynd ymlaen i adnabod yr hyfforddiant fydd ei angen ar Aelodau newydd, a phenderfynu pryd fyddai'r amser gorau i'w raglennu. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid fod profiadau TG wrth gyflwyno'r cyfarpar presennol i'r Aelodau wedi dysgu llawer iddynt o ran y lefel o gefnogaeth sydd ei angen gan Aelodau, a sut i'w amseru.
- Fod cysylltedd rhai ardaloedd yng Ngwynedd i'r rhyngwyd yn araf iawn, gan effeithio ar allu Aelodau i dderbyn gwasanaethau ar-lein.
- Byddai'n fuddiol petai ryw fath o lyfrgell dogfennau cyfeiriol ar gael i Aelodau er mwyn eu cynorthwyo.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan argymhell cadw at un ddyfais electroneg er hwylustod.

6. DIWEDDARIAD GAN YR IS-GRŴP AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd - diweddariad ar waith diweddar yr Is-grŵp amrywiaeth, sy'n cyd-fynd â'r gwaith uchod o baratoi at etholiadau Mai 2017:

- Tynnu sylw darpar ymgeiswyr er mwyn eu hannog i sefyll.
- Deall ac adnabod y rhwystrau sydd gan ddarpar ymgeiswyr a cheisio ymateb iddynt rhag-blaen (ble bo'n bosib)
- Gwneud y wybodaeth sydd ar wefan y Cyngor yn fwy hygyrch.
- Cynhyrchu ail fideo er mwyn hyrwyddo ac annog darpar ymgeiswyr.
- Gwella'r hysbysebu pan mae seddi gwag ar gael i'r Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

7. PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan egluro'r newid pwyslais yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Protocol er mwyn pwysleisio mai'r neges graidd yw dangos parch at eraill. Ychwanegwyd hefyd ddarpariaeth ar gyfer cysylltu i dudalennau cyfryngau cymdeithasol Aelodau. Amlygwyd nad oedd y Cyngor yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am eu cynnwys, ac y dylai'r cynnwys hwnnw ddilyn y protocol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Annog Aelodau i gael tudalen 'bersonol' a thudalen 'swyddogol', gan gofrestru'r ddau gyda'r Swyddog Monitro er mwyn bod gwahaniaeth rhwng bywyd personol a bywyd cyhoeddus Aelodau. Mewn ymateb atgoffodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni'r Aelodau nad oedd gwahaniaeth mewn gwirionedd rhwng tudalennau personol a chyhoeddus. Byddai'r un safonau ymddygiad yn berthnasol iddynt.
- Bod angen rhybudd yn gwadu cyfrifoldeb am gynnwys gwefannau allanol ar y dudalen ble lleolir y ddolen i'r tudalennau cymdeithasol.
- Bod angen cyfarch sefyllfaoedd ble mae Aelod wedi 'blocio' defnyddiwr arall (ac felly ddim yn gweld ei negeseuon) ac felly ddim yn medru ymateb petai'r sawl sydd wedi ei flocio yn gyrru negeseuon i'r Aelod.

PENDERFYNWYD Derbyn yr adroddiad

8. CYRFF ALLANOL

Cyflwynwyd yr adroddiad. Adroddwyd fod y sefyllfa parthed Cyrff Allanol wedi bod yn aneglur yn y gorffennol, a bod cais wedi dod i edrych mewn i'r mater gan fod nifer o Gyrrff Allanol ac amrediad o ran eu dyletswyddau adrodd yn ôl. Nodwyd hefyd fod angen ceisio sefydlu trefn adrodd gan Aelodau'r Cyrff Allanol a Phencampwyr gwahanol feysydd.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod rhai Aelodau yn aelodau o gyrrff allanol am gyfnod hir cyn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod, sy'n amlygu'r amrediad o ran natur gwahanol gyrrff allanol.
- Ei fod yn bwysig hysbysu'r Cyrff Allanol os oes unrhyw newidiadau er mwyn iddynt fod yn medru diweddarau eu cofnodion.
- Gofynnwyd pwy oedd yn penodi Aelodau i Gyrrff Allanol. Atebodd yr Uwch Reolwr

Democratiaeth a Chyflawni mai'r Aelod Cabinet oedd yn penodi Aelodau i'r rhan fwyaf o Gyrrff Allanol, a'i fod yn gwneud hynny fel arweinydd portffolio yn hytrach na fel gwleidydd.

PENDERFYNWYD Derbyn yr adroddiad.

9. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan nodi fod 29 Aelod wedi cyflwyno adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16 er bod problemau technegol wedi effeithio ar y broses o'u paratoi. Nodwyd hefyd fod dryswch ynglŷn â'r ffordd orau o baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer 2016-17 oherwydd yr Etholiad. Nid oedd arweiniad swyddogol wedi ei dderbyn ar hyn o bryd. Penderfynwyd peidio cynnal trafodaeth bellach ar y mater hyd y derbynnir arweiniad swyddogol ar gyfer gofynion adrodd 2016-17.

10. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2016-17

Cyflwynwyd y rhaglen waith ddrafft.

PENDERFYNWYD Derbyn y rhaglen waith.

Dechreuodd y cyfarfod am AmserAmhenodol a daeth i ben am AmserAmhenodol

CADEIRYDD

Eitem 5

| | |
|--------------------|--|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 29 Tachwedd, 2016 |
| TEITL YR ADRODDIAD | Ymgynghoriad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| PWRPAS | Derbyn sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn ymateb i'r ymgynghoriad. |
| ARGYMHELLIAD | Cyflwyno sylwadau |
| AWDUR | Cynghorydd Tom Ellis, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Geraint Owen Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd yn gyfrifol am bennu'r cyflogau a'r costau sydd yn daladwy i gynghorwyr yn rhinwedd eu dyletswyddau. Bob blwyddyn, mae'r Panel yn cyhoeddi cynigion drafft ac yn ymgynghori arnynt.
2. Gellir gweld copi o'r ymgynghoriad llawn trwy ddilyn y ddolen isod:
<http://gov.wales/irpwsb/home/?lang=cy>
3. Fel arfer, nid oes llawer o destun trafod yn yr argymhellion gan ei fod yn cymryd agwedd gyffredin at y cyflogau a chostau a delir i bob cynghorydd. Fodd bynnag, tynnir eich sylw at y prif awgrymiadau sy'n haeddu sylw:

a) Cyflog sylfaenol: Eleni, am y tro cyntaf ers 2013, argymhellir fod cynnydd yng nghyflog sylfaenol aelod etholedig o £100 y flwyddyn (£13,400 yn lle'r £13,300 cyfredol). Cynnydd o 0.75% fyddai hynny.

Er mwyn gosod hyn mewn cyd-destun, dylid nodi fod penderfyniadau'r Panel yn ei adroddiad yn 2009, wrth sefydlu sail cyflogau aelodau, yn cysylltu taliadau ag enillion gros canorfol gweithwyr llawn-amser sy'n byw yng Nghymru. Pennwyd y cyflog sylfaenol ar lefel a oedd yn dair rhan o bump o Gyflog Canolrifol Cymru gyfan, gan gydnabod bod yna gyfraniad di-dâl i wasanaeth cyhoeddus. Yn sgil y cyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol yn benodol, nid yw wedi bod yn bosibl cynnal y cysylltiad ag enillion cyfartalog yng Nghymru. Ar y sail wreiddiol, sef tair rhan o bump o'r cyfartaledd, byddai cyflog sylfaenol blynyddol bellach yn uwch na £14,700.

Argymhelliad – cefnogi'r cynnig i gynyddu y lwfans sylfaenol o £13,300 i £13,400

b) Costau gofal: Bydd yr aelodau yn ymwybodol fod darpariaeth ar gyfer gwneud ad-daliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â threfnu gofal ar gyfer plant neu ddibynyddion er mwyn galluogi aelodau i gyflawni busnes swyddogol. Mae dyletswydd ar y Cyngor i hyrwyddo'r ad-daliad yma. Dylid nodi na fu unrhyw hawliad am yr ad-daliad yma unwaith eto eleni yng Ngwynedd.

Nid oes newid i'r symiau y gellid eu hawlio, ond mae dau brif ystyriaeth ar gyfer yr elfen ad-daliad ar gyfer lwfans gofal i'w pwyllgor ei ystyried.

b i) Y dylid cyfeirio atynt fel "ad-daliad ar gyfer costau gofal" yn hytrach na 'lwfans gofal'

b ii) Mewn perthynas â chyhoeddi ad-daliadau costau gofal, mae'r Panel wedi penderfynu rhoi dau ddewis i awdurdodau perthnasol, sef

- a) Cyhoeddi manylion y symiau a ad-dalwyd i aelodau a enwir (fel yn gyfredol)
- b) Cyhoeddi cyfanswm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ond heb briodoli'r taliadau i unrhyw aelod a enwir

Argymhelliad – Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwneud ad-daliadau ar gyfer costau gofal ar gael er mwyn galluogi mwy o bobl o wahanol gefndiroedd i allu cymryd rôl fel Aelod Etholedig. Er mwyn hyrwyddo mwy o aelodau cymwys i hawlio y cymorth yma sydd ar gael, argymhellir

- *Cefnogi y dylid cyfeirio atynt fel "ad-daliad ar gyfer costau gofal"*
 - *Cefnogi y dylid cyhoeddi cyfanswm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, ond heb briodoli'r taliadau i unrhyw aelod a enwir (sef bii – b uchod)*
- Gofynnir i'r Panel hefyd ystyried sut i sicrhau na fyddai ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn y dyfodol yn golygu y byddai'n rhaid i awdurdodau ryddhau gwybodaeth am hawlio ad-daliadau costau gofal fesul unigolyn, a chynnwys hynny yn y canllawiau terfynol.*

c) Absenoldeb oherwydd salwch tymor hir deilydd uwch gyflog: Mae'r fframwaith eleni wedi ei ddiwygio i gynnwys trefniadau ar gyfer sefyllfa pan fo deilydd uwch gyflog yn absennol oherwydd salwch tymor hir. Yn fras, mae'r trefniadau yn cyd-fynd â rheoliadau Absenoldeb Teuluol, sy'n caniatáu, am gyfnod penodol, i ddeilydd yr uwch gyflog sy'n absennol barhau i dderbyn cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr aelod etholedig sy'n dirprwyo i fod yn gymwys i gael yr uwch gyflog sy'n briodol i'r swydd. Mae'r trefniadau hyn yn golygu ychwanegiad at yr uchafswm o uwch-gyflogau sy'n cael eu caniatáu tra pery'r trefniant dirprwyo.

Argymhelliad – cefnogi'r trefniadau newydd ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch gan ddeilydd uwch gyflog.

Ch) Cofnodi rheswm am absenoldeb o bwyllgorau: Mae'r Panel hefyd yn ystyried a ddylid dechrau cofnodi a chyhoeddi rhesymau am absenoldeb Aelodau etholedig o bwyllgorau. Maent yn ystyried hyn mewn ymateb i sylwadau gan aelodau, sydd wedi nodi eu bod hwy yn methu a bod mewn cyfarfod penodol ar adegau gan eu bod yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod arall/ allanol ac y dylid cydnabod hynny.

Argymhelliad – cefnogi'r argymhelliad i nodi'r rheswm am absenoldeb lle bo hynny yn sgil aelod yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod arall. Dylid nodi y byddai'n rhaid i aelodau unigol ddarparu'r wybodaeth eu hunain.

- d) **Aelodau'r Panel i gyfarch y Cyngor llawn:** Mae'r Panel yn cwrdd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn flynyddol i dderbyn eu barn am faterion cydnabyddiaeth ariannol. Yn ogystal, mae'r Panel wedi datgan diddordeb mewn ymgynghori ymhellach a gwrandao ar sylwadau holl aelodau'r Cyngor ac yn awyddus i wneud hyn yn ystod tymor yr Hydref 2017.

Argymhelliad – cefnogi'r cais a gwahodd aelodau'r Panel i gyfarch y Cyngor

4. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor

Eitem 6

| | |
|----------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 29 Tachwedd 2016 |
| PWNC | Etholiadau Llywodraeth Leol 2017 |
| PWRPAS | Diweddaru'r aelodau o'r gwaith paratoi sy'n digwydd yn gyfredol ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2017 |
| AWDUR | Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

CEFNDIR

1.1. Adroddwyd i gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gynlluniau drafft trefniadau etholiadau Llywodraeth Leol 2017, ac fe'i mabwysiadwyd gan y Pwyllgor.

1.2. Isod, cyflwynir diweddariad i'r Pwyllgor ar y meysydd gwaith a adnabuwyd.

CODI YMWYBYDDIAETH

1.3. Bydd yr Aelodau yn cofio mai elfen cyntaf y gwaith paratoi ar gyfer etholiadau 2017 yw'r elfen 'codi ymwybyddiaeth'. Penderfynwyd y byddai budd o gynnal sesiynau yn rhoi cyfle i unrhyw unigolyn sy'n ystyried neu'n dymuno sefyll yn yr etholiadau I gael dod I gwrdd â swyddogion ac aelodau er mwyn cael cyfle I holi cwestiynnau a chael gwell dealltwriaeth o ofynion y swyddogaeth petaent yn llwyddiannus.

1.4 Penderfynwyd fod y sesiynau l'w cynnal ym mis Ionawr, ac mae'r trefniadau fel a ganlyn:

- Dydd Mawrth, 17/01/2017 6-8 yr hwyr, Frondeg, Pwllheli
- Dydd Mercher, 18/01/2017 6-8 yr hwyr, Siambr Penarlwg, Dolgellau
- Dydd Iau, 19/01/2017 6-8 yr hwyr, Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon

1.5. Mae'n angenrheidiol fod digon o gyhoeddusrwydd am y sesiynau yn cael eu rhoi, ac mae gwaith yn digwydd gyda'r uned gyfathrebu i gael cynllun cyfathrebu clir fel bo pobl gael y budd gorau o'r sesiynau

DYDDIAU CROESAWU

2.1 Fel mae'r aelodau eisoes yn ymwybodol, cynhelir y dyddiau croesawu ar gyfer aelodau ar y **9fed a'r 10fed o fis Mai 2017** (dydd Mawrth a dydd Mercher). Mae'r cynllun gwaith eisoes wedi ei fabwysiadu, a'r prif waith yn awr yw sicrhau fod y manylion yn cael sylw gan swyddogion yn fewnol.

2.2 Elfen arall sy'n cael sylw dan y penawd uchod yw hyfforddiant. Bu trafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor yn dilyn cwestiwn y Cyngrydd Sian Hughes am fudd mynychu hyfforddiant ac fod cymaint i'w elwa o'r sesiynau gan fod aelodau wedyn wedi eu harfogi gyda'r wybodaeth angenrheidiol iddynt ddod i gasgliadau teg. Bu i'r Aelod Cabinet, y Cyngorydd Dyfrig Siencyn, ymateb i'r drafodaeth drwy wneud cais i'r Pwyllgor hwn drafod:

- A. Cynyddu'r adnodd ar gyfer dysgu dros y we - e-ddysgu
- B. Edrych ar wneud hyfforddiant yn fandadol
- C. Cyhoeddi presenoldeb aelodau mewn hyfforddiant

2.3 Mewn ymateb i A yn 2.2 uchod, mae gwaith eisoes yn cael ei ddatlygu i alluogi e-ddysgu, hynny yw, dilyn modiwlau o hyfforddiant ar y cyfrifiadur yn eich amser eich hun, gyda rhywfaint o gwestiynnau ar y diwedd. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor hefyd yn edrych ar ddatblygu webinarau fel ffordd arall o ddysgu o unrhyw leoliad. Mae'r sesiynau yma yn rhai byw ar adegau penodol, ond gellir ymuno â'r sesiwn o unrhyw leoliad sydd â chyswllt trwy eich cyfrifiadur. Rydym hefyd yn edrych ar sut i ddefnyddio'r Fforymau Ardal ar gyfer rhai sesiynau hyfforddiant, yn arbennig ar gyfer y 6 - 12 mis cyntaf yn dilyn yr etholiad.

2.4 Roedd bil drafft Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd y flwyddyn diwethaf yn ymgynghori ar wneud rhai elfennau o hyfforddiant yn fandadol. Byddai hynny yn golygu fod pob awdurdod yn penderfynu pa sesiynau hyfforddiant o fewn eu hawdurdod hwy oedd yn fandadol gan yr awdurdod. Yr ydym yn ymwybodol fod y bil drafft hwnnw am gael ei ddiweddarau yn fuan, a'r disgwyliad yw y bydd hynny yn digwydd ym mis Ionawr 2017, ac na fydd newid o'r uchod yn y bil drafft nesaf.

Mae trafodaethau cenedlaethol gyda swyddogion yn y maes wedi bod yn digwydd dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae nifer fawr o awdurdodau lleol yn cyd-weld fod rhai meysydd penodol o hyfforddiant y dylid eu hadnabod fel mandadol er mwyn sicrhau fod y wybodaeth a'r dealltwriaeth angenrheidiol gan aelodau I fod yn gwneud penderfyniadau synhwyrol. Felly, er nad yw hyfforddiant yn statudol, mae cryfder mewn adnabod y prif bynciau hyfforddiant mandadol ar lefel Cymru, fel bo sail dysgu pob aelod yn gadarn.

2.5. O ran cyhoeddi presenoldeb mewn hyfforddiant, gellir gwneud hynny drwy modern.gov fel y cyhoeddir presenoldeb mewn pwyllgorau yn gyfredol. Rydym angen gwneud rhywfaint o waith pellach i weld sut y byddai modd ymgorffori unrhyw wybodaeth am hyfforddiant arall ee e-ddysgu neu webinar i hyn. Gan ein bod bellach ar ganol blwyddyn olaf y Cyngor hwn, argymhellir ystyried fod y trefniadau yma yn dod i fodolaeth erbyn tymor y Cyngor nesaf.

DARPARIAETH TECHNOLEG GWYBODAETH

3.1 Mae'r Grwp Ffocws wedi cwrdd nifer o weithiau dros y misoedd diwethaf. Bellach, mae'r grwp yn treialu gwahanol ddyfeisiadau. Trwy ddefnyddio'r gwahanol gyfarpar am gyfnod penodol o amser, bydd yr aelodau yn gallu eu gwerthuso yn deg er mwyn dod i'r casgliad cywir. Mae nifer o ystyriaethau dan sylw gan gynnwys pa mor syml ydynt i'w defnyddio, cludadwy, cost, cyflymder ayyb.

3.2. Mae'r grwp am fod yn cyfarfod eto ddiwedd mis Ionawr er mwyn gwerthuso y cyfarpar yn llawn a dod i gasgliad. Bydd hyn yn rhoi amser digonol wedyn i archebu fel bo'r cyfarpar newydd yn barod ar gyfer mis Mai 2017.

3.3. Yn ogystal, mae'r grwp wedi ystyried trefniadau casglu cyfarpar cyfredol, a threfniadau casglu cyfarpar petae aelod yn gadael yn ystod y tymor.

Eitem 7

| | |
|-----------------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd |
| DYDDIAD | 29 Tachwedd 2016 |
| PWNC | Datblygiad "Modgov" o fewn y Cyngor |
| PWRPAS | Diweddarau'r aelodau ar y gwaith mwyaf diweddar a gwahodd barn ar faterion i gael sylw |
| AWDUR | Arwel E Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) |

CEFNDIR

1. Mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio meddalwedd "Modern.gov" ar gyfer cefnogi gwaith ym maes Democratiaeth ers dros flwyddyn nawr. Mae hyn yn golygu paratoi a dosbarthu rhaglenni, adroddiadau a chofnodion a'u cyhoeddi ar Wefan y Cyngor.
2. Fel yr esboniwyd o'r blaen i'r pwyllgor hwn, roedd hyn yn golygu llawer iawn o waith caled i'r staff proffesiynol sydd yn gweithio yn y maes a chydweithrediad swyddogion Tim y Wefan a'r Uned Technoleg Gwybodaeth. Carwn gofnodi'n gyhoeddus fy niolchgarwch iddynt am eu gwaith parod ac effeithiol yn ei gyflwyno.

Y DEFNYDD A WNEIR OHONNO

3. Y prif ddefnydd a wêl aelodau ohonno yw'r "app" sydd ar gael i'w ddefnyddio ar lechi'r aelodau er mwyn iddynt dderbyn y rhaglenni pwyllgorau perthnasol. Mae sawl mantais i'r "app" hwn. Yn gyntaf, unwaith y mae aelod wedi tansysgrifo i dderbyn rhaglen, mae'n dod ar y llechen yn otomatig heb i aelod orfod ei lawrlwytho. Yn ail, mae modd symud llawer yn fwy hwylus o gwmpas y rhaglen nad wrth ddefnyddio meddalwedd cyffredinol a hefyd wneud nodiadau a marcio papurau lle y mae'r aelod yn dymuno nodi pwynt penodol er mwyn ei godi mewn cyfarfod.
4. Erbyn hyn, mae 40 o'r 75 aelod yn derbyn eu rhaglenni yn y ffordd hwn ac, ar sail yr hyn yr wyf yn ei glywed, yn ei werthfawrogi yn fawr iawn. Yn amlwg, byddwn yn canolbwyntio bellach ar baratoadau ar gyfer yr etholiad nesaf gan obeithio y bydd hynny'n cyfarch un broblem a gafwyd, gan y byddwn yn medru llwytho'r meddalwedd ar yr offer y bydd cyngorwyr yn ei dderbyn cyn iddynt ei gael
5. Y prif ddefnydd cyhoeddus yw bod Modgov bellach yn rheoli'r darn o'r Wefan sydd yn ymwneud ag "Y Cyngor" a'r holl gynnwys am ddemocratiaeth sydd yn ymddangos ar y Wefan o dan y pennawd hynny. Mae hynny wedi llyfnhau'r broses o lwytho deunydd ar y Wefan ac hefyd wedi golygu bellach ein bod yn medru cyhoeddi llawer mwy o wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am aelodau unigol, yn cynnwys eu lefelau presenoldeb.
6. Yn dilyn sylwadau gan aelodau, rydym wedi gwneud addasiadau yn y misoedd diwethaf ac mae'r newidiadau hynny yn golygu bellach bod y wybodaeth bresenoldeb i gynnwys presenoldeb mewn cyfaraodydd paratoi, ymchwiliadau craffu a fforymau ardal.

Y CAMAU NESAF

7. O fod wedi buddsoddi yn y system hon a, gan dderbyn ei fod eisoes wedi profi ei werth, rydyj ar hyn o bryd yn edrych ar sut i'w ddatblygu ar gyfer y dyfodol. Yn amlwg, gyda systemau o'r fath, mae amryw o elfennau y medrir eu datblygu a byddem yn dymuno derbyn sylwadau gan aelodau am elfennau y byddent yn dymuno gweld yn cael eu datblygu yn y dyfodol.
8. Rydym eisoes yn trafod defnyddio Modgov ar gyfer hwyluso canlyniadau Etholiad 2017 ac yn edrych ar hyn o bryd hefyd am ymestyn defnydd y system i gyfarfodydd sydd ddim yn gyhoeddus er mwyn medru defnyddio'r "app" i anfon papurau i'r aelodau. Materion eraill sydd yn cael sylw yw cynnwys manylion hyffordiant aelodau yn y manylion presenoldeb, ceisio integreiddio'r drefn rhaglenni gyda dyddiaduron Outlook aelodau a gwella'n defnydd o allu blaen-raglenni ac atgoffa Moderngov er mwyn gwella ein trefn o atgoffa swyddogion o amserlenni adroddiadau a thracio eitemau.
9. Gwahoddir sylwadau aelodau ar y math o ddatblygiadau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt dros y cyfnod nesaf.

Eitem 8

| | |
|----------|--|
| Cyfarfod | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad. | 29ain Tachwedd 2016 |
| Pwnc. | Siarter Aelodau |
| Pwrpas. | Diweddaru'r pwyllgor ar y cais am y siarter Cais i sefydlu grwo ymgynghori ar gynnwys y siarter |
| Awdur | Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

CEFNDIR

1.1 Bydd yr aelodau yn cofio fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi trafod 'Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr' yn y gorffennol. Datblygwyd y Freinlen gan Gymdeithas Llywodraeth leol Cymru, a chyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'. Mae elfennau o'r freinlen yn cyd-fynd ac yn adeiladu ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Cymru). Ei fwriad yw gosod safonau penodol ym maes datblygu aelodau, ac mae'r Pwyllgor wedi ei drafod yn y gorffennol.

1.2 Adroddwyd yn 2014 nad oedd modd ennill y Siarter bellach oherwydd diffyg adnoddau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i asesu ceisiadau gan awdurdodau. Bu i'r Pwyllgor benderfynu fod egwyddorion y Siarter yn haeddiannol i'w cefnogi, ac mae'r Cyngor wedi parhau i weithio tuag atynt yn gyson ers hynny.

1.3 Bellach, mae adnoddau ar gael gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i asesu ceisiadau am y Siarter, ac mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i gyflwyno cais.

SWYDD DDISGRIFIADAU I AELODAU

1.4 Un o'r prif faterion sydd angen sylw er mwyn ennill y Siarter yw sicrhau fod swydd ddisgrifiadau yn bodoli ar gyfer rolau penodol i aelodau yn y Cyngor. Roedd nifer o swydd ddisgrifiadau yn bodoli eisoes, ond roedd angen creu nifer o swydd ddisgrifiadau o'r newydd hefyd. Er mwyn ceisio cael cysondeb rhwng y swydd ddisgrifiadau, cymerywd y cyfle i ddiweddaru y rhai oedd yn bodoli eisoes hefyd.

1.5. Gellir gweld copiau o'r swydd ddisgrifiadau drafft yn **Atodiad A**. Dylid nodi fod y "Swydd ddisgrifiad Aelod Cyffredin" yn berthnasol i bob Aelod, a'i fod yn sefyll ar y cyd â swydd ddisgrifiadau penodol ar gyfer swyddi arbennig. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor ar y swydd ddisgrifiadau drafft

1.6.. Yn amodol ar farn y Pwyllgor, er mwyn sicrhau ymgynghori yn llawn ar y swydd ddisgrifiadau, bwriedir yn awr ymgynghori gyda'r Cadeiryddion a'r swyddogion perthnasol i bob pwyllgor ynghylch y swydd ddisgrifiad drafft ar gyfer eu maes.

GWAITH PELLACH I ENNILL Y FREINLEN

1.7 Fodd bynnag, mae angen cyflawni rhai elfennau o waith arall ac mae hynny yn mynd yn ei flaen. Credir y byddai sicrhau barn aelodau ynghylch yr elfennau eraill hefyd o gymorth. Nid yw adrodd y cyfan i Bwyllgor yn ymarferol, ac felly awgrymir y byddai grwp bychan o aelodau i herio ac adeiladu ar yr hyn sydd wedi ei ffurfio o gymorth i'r Cyngor ennill y Freinlen.

1.8 Gwahoddir y Pwyllgor:

- I gynnig sylwadau ar y swydd ddisgrifiadau drafft yn Atodiad A
- I gymeradwyo y ffordd ymlaen o ran ymgynghori ymhellach ar y swydd ddisgrifiadau gyda'r Aelodau a'r swyddogion perthnasol
- i sefydlu grwp bychan o aelodau i roi eu barn a'n cynorthwyo i ennill y Siarter. Awgrymir grwp o 4 neu 5 o aelodau.

DISGRIFIAD O RÔL A CHYFRIFOLDEBAU AELOD O GYNGOR GWYNEDD

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1. Atebolrwydd

- I etholwyr y ward a thrigolion y gymuned ehangach
- I'r Cyngor Llawn

2. Swyddogaethau penodol

2.1 Arwain y Gymuned

- Cynrychioli buddiannau'r gymuned yn y Cyngor
- Gwrando ar lais pawb yn y gymuned
- Cyfathrebu hefo'r gymuned, eu hysbysu am bolisïau a gweithgaredd y Cyngor, a rheoli eu disgwyliadau
- Dylanwadu ar y Cyngor i ymateb i ofynion y gymuned
- Ymgymryd â gwaith achos unigol a chyfeirio unigolion i'r adrannau cywir
- Bod yn ddolen gyswllt rhwng y Cyngor a'r gymuned
- Gweithredu yn unol â'r addewidion a wnaed yn yr etholiad

2.2 Cymryd rhan yng ngwaith y Cyngor

- Dylanwadu ar bolisïau'r Cyngor, ei benderfyniadau a'i weledigaeth, trwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, y Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau eraill
- Deall polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn gwneud y defnydd gorau ohonynt.
- Mynychu holl gyfarfodydd a Phwyllgorau perthnasol, gan baratoi'n drylwyr ar eu cyfer ymlaen llaw a chyfrannu'n llawn
- Dod i benderfyniadau ar sail tystiolaeth gytbwys gan roi ystyriaeth deg i'r holl ffactorau perthnasol
- Ceisio adeiladu consensws trwy gydweithio gydag aelodau eraill a swyddogion

- Cydbwyso anghenion y gymuned leol a rhai'r Cyngor cyfan wrth ddod i benderfyniadau

2.3 Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol

(e.e. *Ilywodraethwyr ysgol, awdurdod heddlu, mudiadau lleol*)

- Deall rôl y corff allanol, a rôl cynrychiolydd y Cyngor arno
- Mynychu cyfarfodydd o'r corff allanol gan gyfrannu at ei drafodaethau
- Cydweithio i adeiladu perthynas waith dda gyda'r corff allanol
- Adrodd yn ôl i'r Cyngor ar waith y corff allanol yn ôl y galw
- Paratoi at gyfarfodydd er mwyn cynrychioli'r Cyngor yn effeithiol
- Cadw at reolau, canllawiau a Pholisi laith y Cyngor ar gynrychiolaeth ar gyrff allanol
- Derbynu a pharchu Cyfansoddiad y corff allanol
- Mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned perthnasol fel sylwedydd o bryd i'w gilydd

2.4 Cynnal safonau

- Cadw at Gôd Ymddygiad Aelodau a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad
- Cadw at y Protocol Cyswllt aelod/swyddog
- Neilltuo'r amser angenrheidiol i waith y Cyngor a chwarae rhan lawn yn y gwaith (*ar gyfartaledd cymer y gwaith 3 diwrnod yr wythnos*)
- Parchu rôl a chyfraniad aelodau eraill, a swyddogion
- Parchu gwerthoedd y Cyngor
- Parchu penderfyniadau democrataidd y Cyngor

2.5 Datblygu Personol a phroffesiynol

- Ymrwymo i hunanddatblygiad a hyfforddiant

Disgrifiad o rôl yr Arweinydd a'i Ddirprwy

(Mae'r arweinydd yn cael ei ethol gan y Cyngor Llawn ac yn arwain y Cyngor tan yr etholiad nesaf – sydd fel rheol yn gyfnod o bedair blynedd. Mae'r Arweinydd yn penodi'r Cabinet ac yn arwain cyfeiriad gwleidyddol y Cyngor)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I'r cyhoedd

2. Diben a gweithgareddau

- **Rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor**
 - Bod yn arweinydd gwleidyddol i'r Cyngor ac yn brif lefarwr gwleidyddol iddo.
 - Rhoi arweiniad o ran meithrin cysyniad gwleidyddol ym mholisiau'r Cyngor.
 - I ffurfio gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'r gymuned.
 - Rhoi arweiniad cryf a chllir ynglŷn â chydlynu polisiau, strategaethau a threfniadau darparu gwasanaethau.
- **Penodi'r Cabinet***
 - Dynodi cyfrifoldebau priodol.
 - Penodi cynghorwyr priodol i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.
 - Rhoi cyfrifoldebau i aelodau'r Cabinet yn ôl eu galluedd.
 - Penodi'r Dirprwy Arweinydd.
- **Cynrychioli'r Awdurdod a bod yn llysgennad iddo**
 - Cynrychioli'r Awdurdod yn ôl safonau uchel. Cynrychioli'r Awdurdod mewn modd cryf, galluog a huawdl yn y sir ac mewn cyrff allanol fel ei gilydd.
 - Cynrychioli'r Awdurdod ym Mhwyllgor Cydlynu CLIC a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol CLIC.
 - Rhoi arweiniad a chymorth i bartneriaethau a mudiadau lleol.
 - Cynrychioli'r Awdurdod mewn cyrff rhanbarthol a gwladol lle bo'n briodol.

- **Rhoi arweiniad yn y maes mae'n gyfrifol amdano**
 - Ysgwyddo cyfrifoldebau penodol, gan gadw mewn cof ddiben a gwaith cynghorydd gweithredol a'r disgrifiad o'i swyddogaeth.
- **Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a llywio ei gyfarfodydd**
 - Gofalu bod gwaith y Cabinet yn mynd yn esmwyth trwy reoli'r rhaglen waith a'i datblygu drwy'r amser.
 - Gofalu bod gwaith y Cabinet yn cyd-fynd ag amcanion polisiâu gwladol.
 - Cyngori a mentora aelodau eraill o'r Cabinet yn eu gwaith.
 - Llywio cyfarfodydd y Cabinet yn unol â'r Cyfansoddiad.
- **Cymryd rhan ym mhroses benderfynu'r Cabinet**
 - Cydweithio'n agos ag aelodau eraill y Cabinet er mwyn gofalu bod polisiâu a fframwaith cyllidebol y Cyngor yn effeithiol a bod gwasanaethau o'r radd flaenaf ar gael i'r bobl leol.
 - Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd a chefnogi penderfyniadau'r Cabinet ar ôl eu cyhoeddi.
- **Cydweithio â swyddogion i arwain yr Awdurdod**
 - Cysylltu â'r Prif Weithredwr a swyddogion priodol eraill yn rheolaidd.
 - Cydweithio â staff y Cyngor ynghlŷn â gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor, cyfrifoldebau swyddogion ym maes rheoli, a llunio polisiâu.
- **Arwain partneriaethau a'r gymuned**
 - Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol ynghlŷn â nodau a blaenoriaethau sy'n gyffredin iddyn nhw.
 - Bod yn gyfryngwr pan fo anghytuno ynghylch blaenoriaethau.
 - Arwain y gymuned leol trwy ddangos gweledigaeth a rhagwelediad.
- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
 - Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
 - Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
 - Meithrin a chadw cysylltiadau teilwng, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
 - Cadw at Côt Ymddygiad Aelodau, Protocol y Cyngorwyr a'r Swyddogion a'r safonau ymddwyn uchaf mewn swydd gyhoeddus.

Dirprwy arweinydd

(cefnogi'r arweinydd gyda'i ddyletswyddau ac i weithredu ar ei ran yn ei absenoldeb)

- Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd pan fo'n absennol.
- Cynorthwyo'r Arweinydd mewn dyletswyddau penodol yn ôl yr angen.

Disgrifiad o rôl Arweinydd Gwrthblaid
(Gwrthblaid yw'r term am y blaid wleidyddol ail fwyaf)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1. Atebolrwydd

- I'r cylch gwleidyddol a'i henwebodd.

2. Diben a gweithgareddau

- **Rhoi arweiniad gwleidyddol i wrthblaid**
 - Pennaeth gwleidyddol a phrif lefarydd cylch yr wrthblaid.
 - Rhoi arweiniad wrth herio polisiau'r Cyngor yn adeiladol.
 - Herio gweledigaeth y Cyngor a'r gymuned yn adeiladol lle bo'n briodol.
 - Rhoi arweiniad cryf a chdir wrth gydlynu trefniadau amgen ar gyfer polisiau, strategaethau a gwasanaethau.
- **Cynrychioli gwrthblaid yr Awdurdod**
 - Cynrychioli cylch gwrthblaid yr Awdurdod yn ôl safonau uchel a bod yn bennaeth cryf, medrus a huawdl wrth wneud hynny.
 - Cynrychioli'r Cyngor mewn cyrff allanol.
- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
 - Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
 - Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
 - Meithrin cydsyniad a chadw cysylltiadau teilwng, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
 - Cadw at Côd Ymddygiad Aelodau, Protocol y Cynghorwyr a'r Swyddogion a'r safonau ymddwyn uchaf mewn swydd gyhoeddus.

Rôl Dirprwy Arweinydd Gwrthblaid

- Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd pan fo'n absennol.
- Cynorthwyo'r Arweinydd mewn dyletswyddau penodol yn ôl yr angen.

Disgrifiad o rôl Cadeirydd Pwyllgor Safonau

(sy'n hyrwyddo, cynnal a gwarchod safonau ymddygiad Aelodau o fewn y Cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y Cyngor)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

2 Rôl, diben a gweithgarwch

- **Arwain a chyfeirio**

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso awyrgylch cynhwysol a chyfranogol sy'n arwain at benderfyniadau eglur.
 - Amlygu agwedd didwyll a diduedd wrth weithredu, gan dderbyn cyngor proffesiynol, ac ymateb iddo.
 - Gweithredu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad a'r deddfau a pholisïau perthnasol.
 - Gofalu bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â pholisi Iaith Cyngor Gwynedd i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg.
 - Cadeirio cyfarfodydd yn unol â rheolau cyfansoddiadol Cyngor Gwynedd. (Gweler y Cyfansoddiad, rhan 4 – Rheolau Gweithdrefn)
 - Bod yn llysgennad i'r Pwyllgor gan feithrin dealltwriaeth o'i waith.
- Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â:
 - hyrwyddo a chynnal safonau uchel ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
 - cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i gadw at Côt Ymddygiad Aelodau;
 - cynghori'r Cyngor am fabwysiadu neu ddiwygio Côt Ymddygiad Aelodau;
 - monitro hynt Côt Ymddygiad Aelodau;

- cyngori a hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig (neu drefnu iddynt gael eu hyfforddi) am faterion sy'n berthnasol i'r Côt Ymddygiad Aelodau;
- caniatáu eithriadau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
- ymdrin ag adroddiadau tribiwnlys neu dribiwnlys cyfamserol ac adroddiadau Swyddog Monitro'r Cyngor am unrhyw fater mae'r swyddog hwnnw wedi'i roi gerbron Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- cyflawni swyddogaethau ynglŷn â Chynghorau Cymunedol a'u haelodau.

Disgrifiad o rôl Aelod o Bwyllgor Safonau

(sy'n hyrwyddo, cynnal a gwarchod safonau ymddygiad Aelodau o fewn y Cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y Cyngor)

1 Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd Pwyllgor Safonau

2 Rôl, diben a gweithgarwch

- **Deall natur Pwyllgor Safonau a'i helpu i gyflawni ei rôl trwy:**
 - hyrwyddo a chynnal safonau uchel ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
 - cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i gadw at Côt Ymddygiad Aelodau;
 - cynghori'r Cyngor am fabwysiadu neu ddiwygio Côt Ymddygiad Aelodau;
 - monitro hynt Côt Ymddygiad Aelodau;
 - cynghori a hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig (neu drefnu iddynt gael eu hyfforddi) am faterion sy'n berthnasol i Côt Ymddygiad Aelodau;
 - caniatáu eithriadau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
 - ymdrin ag adroddiadau tribiwnlys neu dribiwnlys cyfamserol ac adroddiadau Swyddog Monitro'r Cyngor am unrhyw fater mae'r swyddog hwnnw wedi'i roi gerbron Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y Pwyllgor.
- Gweithredu mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol wrth dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am yr amrywiol faterion sydd gerbron y pwyllgor.
- **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfynu ar faterion**

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys (yn ôl amodau gorchwyl y Pwyllgor) sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.
- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**
 - Diogelu ansawdd penderfyniadau'r Pwyllgor a gofalu eich bod yn cyflawni'ch rôl fel aelod ohono trwy gadw at Côd Ymddygiad Aelodau a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
 - Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdano.

Disgrifiad o rôl Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

(sy'n gyfrifol am adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor weithredu ei swyddogaethau democrataidd yn effeithiol)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

2 Rôl, diben a gweithgarwch

• Arwain a chyfeirio

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso awyrgylch cynhwysol a chyfranogol sy'n arwain at benderfyniadau eglur.
- Amlygu agwedd didwyll a diduedd wrth weithredu, gan dderbyn cyngor proffesiynol, ac ymateb iddo
- Gweithredu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad a'r deddfau a pholisïau perthnasol
- Gofalu bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â pholisi Iaith Cyngor Gwynedd i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg
- Cadeirio cyfarfodydd yn unol â rheolau cyfansoddiadol Cyngor Gwynedd. (Gweler y Cyfansoddiad, Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefn)
- Bod yn llysgennad i'r pwyllgor, gan feithrin dealltwriaeth o'i waith

• Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

- Cydweithio gyda'r Is-gadeirydd a swyddogion i gytuno rhaglen a nôd ac amcanion eglur i bob cyfarfod
- Rheoli'r ffordd mae'r cyfarfod yn mynd rhagddo, gan ofalu bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cadw at y Côt Ymddygiad Aelodau, y rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill (gan gadw mewn cof bod ambell bwyllgor yn cael ei we ddarlledu)
- Gofalu bod y gwaith paratoi priodol yn cael ei wneud ymlaen llaw (sy'n cynnwys, fel sy'n briodol, cyfarfodydd paratoi neu friffio, egluro rolau aelodau'r Pwyllgor, swyddogion a mynychwyr eraill, amserlennu)

- Gofalu bod pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn cael cyfle i gyfrannu'n briodol, ac yn derbyn ymatebion priodol
- Gofalu bod y Pwyllgor yn glir ar ei benderfyniad a chrynhoi unrhyw gynigion a'r rhesymau dros y penderfyniad
- **Cyfranogiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor**
- Annog perfformiad uchel gan bob aelod o'r Pwyllgor
- Asesu perfformiad torfol y Pwyllgor a hwyluso gweithgareddau datblygu priodol a/neu gymryd y camau priodol.

3 **Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â:-**

- Penodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
- Cadw golwg ar y staff, y swyddfeydd a'r adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ofalu eu bod yn addas
- Llunio adroddiad i'r Cyngor bob blwyddyn am y mater uchod
- Penodi aelodau a Chadeiryddion is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau mae'r Pwyllgor wedi'u dirprwyo
- Ystyried adroddiadau mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi'u llunio
- Llunio strategaeth y Cyngor ar gyfer cynorthwyo a datblygu cynghorwyr
- Gofalu bod digon o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i'r cynghorwyr yn ôl strategaeth y Cyngor ar gyfer eu cynorthwyo a'u datblygu a Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru
- Gofalu bod digon o arian yn y gyllideb i ddatblygu cynghorwyr
- Gofalu bod gweithgareddau datblygu personol ac adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol ar gael i gynghorwyr
- Cydweithio â hyrwyddwr gweithgareddau cynorthwyo a datblygu'r cynghorwyr lle bo'n berthnasol i hybu rôl cynghorwyr a mynnu'r cymorth a'r cyrsiau datblygu priodol
- Amlygu agwedd annibynnol, gonest ac amhleidiol wrth benderfynu ar faterion yn ôl gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol
- **Hyrwyddo rôl Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
 - Gweithredu'n llysgennad dros y Pwyllgor, gan helpu pobl i ddeall ei rôl
 - Gweithredu yn ôl gofynion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r Pwyllgor mewn modd teg a chywir
 - Gofalu bod y Pwyllgor yn gweithio mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol wrth dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am yr amrywiol faterion sydd gerbron y Pwyllgor
- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**
 - Datblygu enw da a gonestrwydd y Pwyllgor a'i benderfyniadau
 - Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor

Disgrifiad o rôl Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

(sy'n gyfrifol am adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor weithredu ei swyddogaethau democrataidd yn effeithiol)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

2 Rôl, diben a gweithgarwch

2.1 Ymgymeryd â rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

- Penodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.
- Sicrhau adnoddau digonol o staffio, y swyddfeydd a'r adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ofalu eu bod yn addas.
- Llunio adroddiad i'r Cyngor Llawn bob blwyddyn am y mater uchod.
- Penodi aelodau a Chadeiryddion Is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau mae'r Pwyllgor wedi'u dirprwyo.
- Ystyried adroddiadau mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi'u llunio.
- Llunio strategaeth y Cyngor ar gyfer cynorthwyo a datblygu cynghorwyr.
- Gofalu bod digon o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i'r cynghorwyr yn ôl strategaeth y Cyngor ar gyfer eu cynorthwyo a'u datblygu a Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
- Gofalu bod digon o arian yn y gyllideb i ddatblygu cynghorwyr.

- Gofalu bod gweithgareddau datblygu personol ac adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol ar gael i gynghorwyr.
- Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y Pwyllgor.
- Gweithredu mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol wrth dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am yr amrywiol faterion sydd gerbron y Pwyllgor.

2.2 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfynu ar faterion

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys (yn ôl amodau gorchwyl y Pwyllgor) sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y Cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.
- Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
- Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdano.

Disgrifiad o rôl Aelod o Bwyllgor Craffu

(Mae Pwyllgor Craffu yn

- cadw trosolwg ar benderfyniadau'r Cyngor a'u dwyn i gyfrif
- cynnal ymchwiliadau)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cyngorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r cyhoedd
- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol

2 Rôl, diben a gweithgarwch

- Cymryd rhan gyflawn yng ngwaith y Pwyllgor, megis llunio a chyflawni ei raglen waith, ac unrhyw gylchoedd gorchwyl a gorffen perthnasol.

2.1 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd

- Paratoi'n ddigonol ac yn briodol ar gyfer cyfarfodydd trwy ymchwil a dogfennau.
- Cymryd rhan mewn modd rhagweithredol ac effeithiol, yn ôl gwybodaeth berthnasol, gan gymryd i ystyriaeth y Côd Ymddygiad Aelodau, y rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gweithredu mewn modd gwrthrychol, amhleidiol a thrylwyr

2.2 Gofalu bod y Cabinet yn atebol, a monitro perfformiad / trefniadau darparu gwasanaethau

- Mynd i'r afael â achosion tangyflawni
- Cloriannu penderfyniadau'r Cabinet a'u 'galw i mewn' lle bo'n briodol.
- Cadw llygad ar yr hyn mae darparwyr mewnol ac allanol yn ei gyflawni yn ôl safonau a thargedau perthnasol, gan gynnwys holi'r Cabinet a'r uwch swyddogion dros gyfnod.

2.3 Blaen-graffu polisiau

- Helpu i greu, datblygu, gwella a mireinio polisiau'r Cyngor.

- Cwestiynu polisiau yn ôl tystiolaeth gadarn megis y gyfraith neu flaenoriaethau gwleidyddol lleol.
- Asesu effaith polisiau cyfredol.

2.4 Arwain y gymuned

- Defnyddio gwaith craffu i fynd i'r afael â materion yn y gymuned ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Annog pobl gysylltiedig i gymryd rhan yng ngwaith yr Awdurdod.
- Hwyluso trafodaethau ymhlith y trigolion a phobl gysylltiedig eraill am flaenoriaethau, amcanion a'r hyn sy'n cael ei gyflawni.

Disgrifiad o rôl Cadeirydd Pwyllgor Archwilio

(Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethiant ac ariannol y Cyngor mewn trefn)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cyngorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

2 Rôl, diben a gweithgarwch

• Arwain a chyfeirio

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso awyrgylch cynhwysol a chyfranogol sy'n arwain at benderfyniadau eglur.
- Amlygu agwedd didwyll a diduedd wrth weithredu, gan dderbyn cyngor proffesiynol, ac ymateb iddo
- Gweithredu yn unol â gofynion y cyfansoddiad a'r deddfau a pholisïau perthnasol
- Gofalu bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â pholisi Iaith Cyngor Gwynedd i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg
- Cadeirio cyfarfodydd yn unol â rheolau cyfansoddiadol Cyngor Gwynedd. (Gweler y Cyfansoddiad, Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefn)
- Bod yn llysgennad i'r Pwyllgor, gan feithrin dealltwriaeth o'i waith

• Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

- Cydweithio gyda'r Is-gadeirydd a swyddogion i gytuno rhaglen a nôd ac amcanion eglur i bob cyfarfod
- Rheoli'r ffordd mae'r cyfarfod yn mynd rhagddo, gan ofalu bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cadw at Côt Ymddygiad Aelodau, y rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill (gan gadw mewn cof bod ambell bwyllgor yn cael ei we ddarlledu)
- Gofalu bod y gwaith paratoi priodol yn cael ei wneud ymlaen llaw (sy'n cynnwys, fel sy'n briodol, cyfarfodydd paratoi neu friffio, egluro rolau aelodau'r pwyllgor, swyddogion a mynychwyr eraill, amserlennu)

- Gofalu bod pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn cael cyfle i gyfrannu'n briodol, ac yn derbyn ymatebion priodol
- Gofalu bod y Pwyllgor yn glir ar ei benderfyniad a chrynhoi unrhyw gynigion a'r rhesymau dros y penderfyniad
- **Cyfranogiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor**
- Annog perfformiad uchel gan bob aelod o'r Pwyllgor
- Asesu perfformiad torfol y Pwyllgor a hwyluso gweithgareddau datblygu priodol a/neu gymryd y camau priodol.

3 **Arwain y pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â:-**

- Adolygu ac archwilio materion ariannol y Cyngor.
- Llunio adroddiadau ac argymhellion am faterion ariannol y Cyngor.
- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Llunio adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â pha mor addas ac effeithiol yw'r trefniadau hynny.
- Goruchwylio trefniadau archwilio ariannol mewnol ac allanol y Cyngor.
- Adolygu'r adroddiadau ariannol mae'r Cyngor wedi'u paratoi a rhoi sêl bendith arny'n nhw pan fo pwerau wedi'u dirprwyo.
- Meithrin perthynas ag archwilyr mewnol ac allanol a Swyddog Monitro'r Cyngor.
- Llunio rhaglen waith ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor.
- Adolygu ac asesu gwaith y Pwyllgor a'i aelodau.
- **Hyrwyddo rôl Pwyllgor Archwilio**
 - Gweithredu'n llysgennad dros y Pwyllgor, gan helpu pobl i ddeall ei rol.
 - Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r Pwyllgor mewn modd teg a chywir.
 - Gofalu bod y Pwyllgor yn gweithio mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol wrth dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am yr amrywiol faterion sydd gerbron y Pwyllgor a'r prosesau archwilio ariannol.
- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**
 - Deall y peryglon ariannol sy'n berthnasol i faterion llywodraethu corfforaethol; bod yn fodlon bod datganiadau sicrhad y Cyngor, megis y datganiad blynyddol ar lywodraethu, yn adlewyrchu'r peryglon hynny ac unrhyw waith mae'i angen i'w lleddfu.
 - Datblygu enw da a gonestrwydd y Pwyllgor a'i benderfyniadau.
 - Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano.
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.

Disgrifiad o rôl Aelod o Bwyllgor Archwilio

(Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethiant ac ariannol y Cyngor mewn trefn)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cyngorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio

2 Rôl, diben a gweithgarwch

2.1 Deall rôl pwyllgor archwilio ariannol a chyflawni ei rolau:

- Adolygu ac archwilio materion ariannol y Cyngor.
- Cyflwyno adroddiadau ac argymhellion am faterion ariannol y Cyngor.
- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Cyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â pha mor addas ac effeithiol yw'r trefniadau hynny.
- Goruchwyllo trefniadau archwilio ariannol mewnol ac allanol y Cyngor.
- Adolygu'r adroddiadau ariannol mae'r Cyngor wedi'u paratoi a rhoi sêl bendith arnyn nhw pan fo pwerau wedi'u dirprwyo.
- Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y Pwyllgor.
- Gweithredu mewn modd amhleidiol, trylwyr a gwrthrychol, gan dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am sut mae cynnal cyfarfodydd a'r amrywiol faterion sydd gerbron y pwyllgor.

2.2 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfynu ar faterion

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio; holi am faterion sy'n rhan o gylich gorchwyl y Pwyllgor a gofyn am eglurhad pan fo amwysedd.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys (yn ôl amodau gorchwyl y Pwyllgor) sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**
 - Deall y peryglon ariannol sy'n berthnasol i faterion llywodraethu corfforaethol.
 - **Bod yn fodlon bod datganiadau sicrhad y Cyngor, megis y datganiad blynyddol ar lywodraethu, yn adlewyrchu'r peryglon hynny ac unrhyw waith sydd angen i'w lleddfu.**
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
 - Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdano

Aelod cyffredin

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Cynghorydd angen:

Cynrychioli a chynorthwyo cymunedau

- Sgiliau cynrychioli da.
- Gallu trin a thrafod pobl.
- Bod yn onest gyda'r gallu i weithredu'n ddiuedd beth bynnag fo'i farn bersonol.
- Gallu cyflwyno dadleuon perthnasol a rhesymol.
- Gallu cyfathrebu'n dda.

Penderfynu, a bwrw golwg ar yr hyn mae'r Cyngor yn ei gyflawni

- Gwybod a deall rheolau ac arferion cyfarfodydd.
- Deall cyd-destun strategaethau, polisiau a gwasanaethau ar gyfer penderfyniadau.
- Gallu cwestiynu syniadau a chyfrannu'n gadarnhaol er mwyn llunio polisiau.

Cynrychioli'r Cyngor (ar gyrff allanol)

- Gallu siarad yn gyhoeddus yn glir.
- Gallu cyflwyno yn glir.
- Gallu darbwyllo pobl eraill i weithredu mewn modd teilwng.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Bod yn barchus at eraill.
- Deall swyddogaethau cynghorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau.
- Bod yn awyddus i gydweithio ag eraill.
- Gwybod a deall Côt Ymddygiad Aelodau a Phrotocol y Cynghorwyr a'r Swyddogion.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

Datblygu personol a phroffesiynol

- Gallu asesu anghenion personol a phroffesiynol.
- Cymryd rhan mewn gwaith datblygu.

Cadeirydd y Cyngor

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Cadeirydd y Cyngor angen:

Cynrychioli awdurdod democrataidd y Cyngor

- Gall siarad yn gyhoeddus yn glir.
- Deall swyddogaeth y Cadeirydd yn drylwyr.

Llywio cyfarfodydd y Cyngor

- Gallu llywio cyfarfodydd, gan ofalu bod yr amcanion yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cymryd rhan yn y trafodaethau.
- Deall Rheolau Sefydlog y Cyngor.

Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor

- Deall Cyfansoddiad y Cyngor.
- Deall pryd y dylai ofyn am gyngor y Swyddog Monitro ynghylch materion y Cyfansoddiad.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Deall swyddogaethau Cynghorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau.
- Bod yn awyddus i gydweithio ag eraill.
- Gwybod a deall Côt Ymddygiad Aelodau a Phrotocol y Cynghorwyr a'r Swyddogion.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

Paratoi rhaglenni gwaith

- Gallu trefnu a rheoli rhaglenni gwaith.

Arweinydd

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd arweinydd angen:

Rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor

- Gwybod cryfderau'r gymuned, meysydd i'w gwella a'r prif faterion.
- Deall y berthynas rhwng gwleidyddiaeth wladol a lleol.
- Bod yn effro i'r materion sy'n wynebu'r Cyngor.
- Deall strategaethau, polisiâu a gweithgareddau'r Cyngor.

Penodi'r Cabinet

- Deall y rheolau ynghylch penodi aelodau'r Cabinet.
- Gallu adnabod talent ymhlith Cynghorwyr.
- Gallu trefnu'r penodiadau mwyaf manteisiol mewn cylchoedd gwleidyddol ac ar eu traws.
- Gwerthuso, cyfarwyddo a mentora aelodau'r Cabinet.

Cynrychioli'r Awdurdod a bod yn llysgennad iddo

- Sgiliau cyfathrebu ar lefel uchel i gyfathrebu efo'r cyfryngau, y trigolion lleol a chynulleidfaoedd ehangach.
- Gallu siarad yn gyhoeddus yn glir.

Rhoi arweiniad yn y maes mae'n gyfrifol amdano

- Gallu cyflawni swyddogaeth aelod o'r Cabinet yn briodol.

Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a llywio ei gyfarfodydd

- Deall rheolau a gweithdrefnau'r cabinet.
- Gallu llywio cyfarfodydd, gan gynnwys annog pob aelod i gymryd rhan.
- Gwybod a deall amcanion polisiâu gwladol.
- Bwrw golwg ar y gwaith mae aelodau'r Cabinet yn ei gyflawni.

Cymryd rhan ym mhroses benderfynu'r Cabinet

- Gallu cwestiynu penderfyniadau yn adeiladol ac awgrymu dewisiadau eraill.

Cydweithio â swyddogion i arwain yr Awdurdod

- Deall swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwyr a swyddogion eraill.

Arwain partneriaethau a'r gymuned

- Gallu arwain yn addasol
- Gallu trafod telerau a broceriaeth .
- Meddwl yn graff a chreadigol – dawn darogan.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Deall swyddogaethau Cyngorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau.
- Awydd i gydweithio ag eraill.
- Gwybod a deall Côt Ymddygiad Aelodau a Phrotocol y Cyngorwyr a'r Swyddogion.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

Arweinydd Gwrthblaid

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, fe fydd Arweinydd Gwrthblaid angen:

Rhoi arweiniad gwleidyddol i'r wrthblaid

- Gwybod cryfderau'r gymuned, meysydd i'w gwella a'r prif faterion.
- Deall y berthynas rhwng gwleidyddiaeth wladol a lleol.
- Bod yn effro i'r materion sy'n wynebu'r Cyngor.
- Deall strategaethau, polisiâu a gweithgareddau'r Cyngor.
- Gallu cwstyfnu strategaethau, polisiâu a gweithgareddau o'r fath.

Cynrychioli gwrthblaid yr Awdurdod

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol efo'r cyfryngau, y trigolion lleol a chynulleidfaoedd ehangach.
- Gallu siarad yn gyhoeddus yn glir.
- Meddwl yn graff a chreadigol – dawn darogan.
- Gallu arwain.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Deall swyddogaethau Cynghorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau.
- Bod yn awyddus i gydweithio ag eraill.
- Gwybod a deall Côt Ymddygiad Aelodau a Phrotocol y Cynghorwyr a'r Swyddogion.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

Cadeirydd Pwyllgor Safonau

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Cadeirydd Pwyllgor Safonau angen:

Deall swyddogaeth y Pwyllgor Safonau

- Deall diben a swyddogaeth y Cyngor, y Pwyllgor Safonau a'r trefniadau adrodd cwynion.
- Deall swyddogaeth y Pwyllgor.
- Deall y gyfraith a'r Cyfansoddiad mewn perthynas ag ymddygiad.
- Deall swyddogaethau Cynghorwyr a swyddogion.
- Deall saith egwyddor Nolan.
- Sgiliau arwain.
- Gallu rheoli gwaith y Pwyllgor.
- Dangos gwrthrychedd drwy gymryd penderfyniadau annibynnol ar sail tystiolaeth a'r cyfrifoldeb cyfreithiol.
- Bod yn barod i fod yn atebol i'r cyhoedd.

Hyrwyddo swyddogaeth y Pwyllgor Safonau

- Gallu i gynghori a sicrhau hyfforddiant i Aelodau'r Cyngor a Chynghorau Cymuned mewn perthynas â'r Côt Ymddygiad Aelodau.
- Bod yn onest, gan weithredu'n ddiduedd beth bynnag fo'i farn bersonol.
- Gwybod a deall y Côt Ymddygiad Aelodau a'r protocolau perthnasol, a'u hyrwyddo.
- Deall pryd y dylai ofyn am gyngor y Swyddog Monitro ynglŷn â'r Cyfansoddiad.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Gwybod a deall y Côt Ymddygiad Aelodau a'r protocolau.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

Aelod Pwyllgor Safonau

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd aelod o Bwyllgor Safonau angen:

Deall swyddogaeth y Pwyllgor Safonau

- Deall diben a swyddogaeth y Cyngor, y Pwyllgor Safonau a'r trefniadau adrodd cwynion.
- Deall y gyfraith a'r Cyfansoddiad mewn perthynas ag ymddygiad.
- Deall swyddogaethau Cynghorwyr a swyddogion.
- Dangos gwrthrychedd drwy gymryd penderfyniadau annibynnol ar sail tystiolaeth a'r cyfrifoldeb cyfreithiol.
- Deall Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd.
- Deall saith egwyddor Nolan.

Cymryd rhan mewn Cyfarfodydd, a phenderfynu

- Bod yn onest, gan weithredu'n ddiduedd beth bynnag fo'i farn bersonol.
- Gallu gwrando, a rhoi pob ystyriaeth a pharch i sylwadau pobl eraill.
- Gallu dehongli gwybodaeth
- Monitro gweithrediad y Côt Ymddygiad Aelodau.
- Bod yn barod i fod yn atebol i'r cyhoedd.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Gwybod a deall y Côt Ymddygiad Aelodau a'r protocolau.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd angen:

Rhoi arweiniad a chyfeiriad

- Deall diben a swyddogaethau'r Cyngor.
- Deall swyddogaeth y Pwyllgor, swyddogaeth y Cadeirydd a threfniadau democrataidd.
- Deall gofynion y gyfraith ar gyfer y Pwyllgor.
- Deall gofynion gwladol a lleol o ran cynorthwyo a datblygu cynghorwyr.
- Deall trefniadau cefnogi Cynghorwyr.
- Deall a chynnal Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
- Gallu cydgysylltu'n effeithiol â Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Cynghorydd dros gynorthwyo a datblygu Aelodau.
- Gallu llunio rhaglenni gwaith.
- Agwedd wrthrychol.
- Gallu meithrin cysyniad.

Rheoli'r rhaglen waith

- Gallu rheoli prosiectau ac adnoddau.
- Gallu rheoli pobl.
- Gallu blaenoriaethu.
- Gallu rhoi adroddiadau am gynnydd i amryw garfanau mewn amryw arddulliau.

Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

- Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, Côd Ymddygiad Aelodau, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gallu llywio cyfarfodydd yn effeithiol, gan reoli'r agenda a chyflawni'r nodau.
- Gallu hwyluso trafodaethau'n effeithiol.

Ymglymiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor

- Deall swyddogaeth y Pwyllgor a sgiliau ei aelodau.
- Deall bod angen hyrwyddo amrywioldeb yn y Cyngor.
- Gallu helpu'r Pwyllgor a'i aelodau i asesu'r hyn sydd angen ei ddatblygu ac wedi'i gyflawni.
- Gallu nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddi a datblygu, hybu gweithgareddau dysgu a datblygu priodol a chymryd rhan ynddyn nhw.

Aelod Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd angen:

Cymryd rhan gyflawn yng ngwaith y Pwyllgor

- Deall diben a swyddogaethau'r Cyngor.
- Deall swyddogaeth y Pwyllgor, swyddogaeth y Cadeirydd a threfniadau democrataidd.
- Deall trefniadau cefnogi a hyfforddi Cynghorwyr.
- Agwedd wrthrychol.

Ymglymiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor

- Deall bod angen hyrwyddo amrywioldeb yn y Cyngor.
- Gallu asesu'r hyn sydd angen ei ddatblygu ac sydd wedi'i gyflawni.
- Cymryd rhan mewn gwaith datblygu.

Cadeirydd Pwyllgor Craffu

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Cadeirydd Pwyllgor Craffu angen:

Rhoi arweiniad a chyfeiriad

- Deall diben a swyddogaethau'r Cyngor.
- Deall swyddogaeth gwaith craffu a chylch gorchwyl y Pwyllgor, swyddogaeth y Cadeirydd ac agweddau eraill y trefniadau democrataidd.
- Deall trefniadau cefnogi Cyngorwyr.
- Deall blaenoriaethau'r Cyngor, ei wasanaethau ei flaneoriaethau ariannol a'r risgiau perthnasol.
- Gallu llunio rhaglenni gwaith.
- Deall materion y gymuned.
- Agwedd wrthrychol.
- Trafod telerau a meithrin cysyniad.
- Gallu meithrin perthynas adeiladol gyda'r Cabinet a bod yn 'gyfaiil beirniadol' iddo.

Rheoli'r rhaglen waith

- Gallu rheoli prosiectau ac adnoddau.
- Gallu rheoli pobl
- Gallu blaenoriaethu.
- Gallu rhoi adroddiadau am gynnydd i amryw garfanau mewn amryw arddulliau.

Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

- Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, Côt Ymddygiad Aelodau, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gallu llywio cyfarfodydd yn effeithiol, gan reoli'r agenda a chyflawni'r nodau.
- Gallu hwyluso trafodaethau effeithiol.
- Gallu gwrando a holi'n effeithiol.

Arwain y gymuned

- Deall hanfod arwain y gymuned.
- Gwybod materion a disgwyliadau lleol.
- Gallu cydweithio'n effeithiol â'r trigolion i gyd, gan feithrin amgyffred o waith craffu yn eu plith a'u hannog i gydio ynddo.
- Adnabod unigolion a mudiadau yn y gymuned, yn arbennig y rhai sydd ar yr ymylon gan amlaf.

Ymglymiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor

- Deall swyddogaeth y Pwyllgor Craffu a sgiliau ei aelodau.
- Gallu helpu'r Pwyllgor a'i aelodau i asesu'r hyn sydd wedi'i gyflawni.
- Gallu nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddi a datblygu, hybu gweithgareddau dysgu a datblygu priodol a chymryd rhan ynddyn nhw.

Aelod o Bwyllgor Craffu

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd aelod o Bwyllgor Craffu angen:

Cymryd rhan gyflawn yng ngwaith y Pwyllgor

- Deall diben a swyddogaeth Pwyllgor Craffu, yn ogystal â chylch gorchwyl ei Bwyllgor ei hun a Phwyllgorau eraill.
- Deall trefniadau cefnogi Cynghorwyr.
- Gweithio o dan adain y Cadeirydd.

Adolygu a llunio polisïau

- Gwybod polisïau cyfredol a gallu eu dadansoddi.
- Deall yr arferion gorau.
- Deall cyd-destunau deddfau a pholisïau gwladol a lleol.

Monitro perfformiad a threfniadau darparu gwasanaethau, a gofalu bod y Cabinet yn atebol

- Deall blaenoriaethau'r Cyngor a'r trefniadau ar gyfer asesu risgiau.
- Deall egwyddorion ac arferion rheoli perfformiad.
- Deall trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor.
- Gallu dadansoddi data a chwestiynu'r hyn sydd wedi'i gyflawni.
- Deall trefniadau 'galw i mewn'.

Hyrwyddo gwaith craffu

- Gallu trafod telerau a meithrin cysyniad.
- Gallu gweithredu'n wrthrychol ar sail tystiolaeth briodol.

Arwain y gymuned

- Deall hanfod arwain y gymuned.
- Gwybod materion a disgwyliadau lleol.
- Gallu cydweithio'n effeithiol â'r trigolion i gyd ac i ddatblygu dealltwriaeth o rôl craffu a'u hannog i gydio ynddo.
- Adnabod unigolion a mudiadau yn y gymuned, yn arbennig y rhai sydd ar yr ymylon gan amlaf.

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd

- Gallu dehongli gwybodaeth a data o amryw ffynonellau.
- Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, Côt Ymddygiad Aelodau, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd, gan gynnwys gwranddo, holi a siarad yn effeithiol.

Cadeirydd Pwyllgor Archwilio

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio angen:

Rhoi arweiniad a chyfeiriad

- Deall diben a swyddogaethau'r Cyngor.
- Deall swyddogaeth y Cyngor a chylch gorchwyl y Pwyllgor, a swyddogaeth y Cadeirydd.
- Deall rolau cymharol archwilio a chraffu.
- Deall trefniadau archwilio mewnol ac allanol, a rheoli risg a llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Deall blaenoriaethau'r Cyngor, ei wasanaethau, ei flaenoriaethau ariannol a'r risgiau perthnasol.
- Gallu llunio rhaglenni gwaith.
- Agwedd wrthrychol.
- Trafod telerau a meithrin cysyniad.
- Gallu meithrin perthynas adeiladol gyda'r Cabinet a bod yn 'gyfaiil beirniadol' iddo.

Rheoli'r rhaglen waith

- Gallu rheoli prosiectau ac adnoddau.
- Gallu rheoli pobl.
- Gallu blaenoriaethu.
- Gallu rhoi adroddiadau am gynnydd i amryw garfanau mewn amryw arddulliau.

Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

- Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, Côt Ymddygiad Aelodau, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gallu llywio cyfarfodydd yn effeithiol, gan reoli'r agenda a chyflawni'r nodau.
- Gallu hwyluso trafodaethau effeithiol.
- Gallu gwrando a holi'n effeithiol.

Ymglymiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor

- Deall swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio a sgiliau ei aelodau.
- Gallu helpu'r Pwyllgor a'i aelodau i asesu'r hyn sydd wedi'i gyflawni.
- Gallu nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddi a datblygu, hybu gweithgareddau dysgu a datblygu priodol a chymryd rhan ynddyn nhw.

Aelod Pwyllgor Archwilio

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd aelod o Bwyllgor Archwilio angen:

Cymryd rhan gyflawn yng ngwaith y Pwyllgor

- Deall diben a swyddogaeth Pwyllgor Archwilio, yn ogystal â chylch gorchwyl ei Bwyllgor ei hun a Phwyllgorau eraill.
- Deall trefniadau archwilio mewnol ac allanol a rheoli risg a llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Deall rolau cymharol archwilio a chraffu.
- Deall cyd-destunau deddfau a pholisïau gwladol a lleol.
- Deall blaenoriaethau'r Cyngor a'r trefniadau ar gyfer asesu risgiau.
- Gallu dadansoddi data a chwestiynu'n wrthrychol.

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd

- Gallu dehongli gwybodaeth a data o amryw ffynonellau.
- Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, Côd Ymddygiad Aelodau, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd, gan gynnwys gwranddo, holi a siarad yn effeithiol.

Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio angen:

Rhoi arweiniad a chyfeiriad

- Gallu cynnal cyfarfodydd i ofalu bod yr ymgeiswyr o'r farn eu bod wedi cael chwarae teg hyd yn oed lle mae'r cais wedi'i wrthod.
- Deall swyddogaeth y Cyngor a gofalu bod pawb sy'n ymwneud â'r Cyngor yn effro i'r swyddogaeth honno, hefyd.
- Sgiliau arwain.
- Gwybod materion lleol.
- Gallu rheoli gwaith y Pwyllgor.
- Gallu meithrin a chynnal sgiliau priodol ymhlith aelodau'r Pwyllgor.

Hyrwyddo swyddogaeth y Pwyllgor Rheoleiddio a phenderfynu lled-gyfreithiol

- Deall a gwerthfawrogi'r fframwaith rheoleiddio.
- Gallu ysgogi ac ysbrydoli aelodau'r Pwyllgor ynglŷn â'u gwaith.
- Bod yn onest, gan weithredu'n ddiduedd beth bynnag fo'i farn bersonol.
- Gwybod a deall y Côd Ymddygiad Aelodau a'r protocolau perthnasol, a'u hyrwyddo.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Gwybod a deall y Côd Ymddygiad Aelodau a'r protocolau.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio angen:

Deall natur y Pwyllgor Rheoleiddio a phenderfynu lled-gyfreithiol

- Bod yn onest, gan weithredu'n ddiduedd beth bynnag fo'i farn bersonol.
- Gwybod y deddfau, y polisiau a'r gweithdrefnau ynghylch rheoleiddio a phenderfynu lled-gyfreithiol.
- Meithrin gwybodaeth.
- Agwedd wrthrychol a chraffter.

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd, a phenderfynu

- Gallu gwranddo, a rhoi pob ystyriaeth a pharch i sylwadau pobl eraill.
- Gallu siarad yn gyhoeddus yn glir.
- Gallu cynrychioli'n dda.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Gwybod a deall y Côt Ymddygiad Aelodau a'r protocolau.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

Aelod Cabinet

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Aelod Cabinet angen:

Arwain yn y maes mae'n gyfrifol amdano

- Deall strategaethau, polisiau a gweithgareddau'r Cyngor.
- Gallu arwain.

Helpu i bennu agenda strategol a rhaglen waith yn y maes mae'n gyfrifol amdano

- Gallu cyflwyno gwybodaeth i bobl eraill.
- Craffter strategol.
- Gwybod materion perthnasol a phwy ddylai fod ynghlwm wrth benderfynu.
- Gallu darbwyllo pobl eraill.
- Gwybod amcanion y Cyngor a'r wlad.

Cynrychioli'r maes mae'n gyfrifol amdano

- Gallu siarad yn gyhoeddus yn glir.
- Gallu cyflwyno'n dda.

Rhoi adroddiadau a rhoi cyfrif

- Sgiliau cyfathrebu ar lefel uchel.

Cymryd rhan yng nghyfarfodydd a phenderfyniadau'r Cabinet

- Gallu cwestiynu penderfyniadau yn adeiladol ac awgrymu dewisiadau eraill.
- Gwybodaeth, hyder a gallu i gymryd rhan mewn trafodaethau a helpu i ddatrys materion sy'n ymwneud â mwy nag un maes a/neu aelod.

Arwain partneriaethau a'r gymuned

- Gallu arwain yn addasadol
- Gallu trafod telerau a broceriaeth .
- Meddwl yn graff a chreadigol – dawn darogan.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Deall swyddogaethau Cyngorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau.
- Awydd i gydweithio ag eraill.
- Gwybod a deall Côt Ymddygiad Aelodau a Phrotocol y Cyngorwyr a'r Swyddogion.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

Pencampwr

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd angen:

Yn y Cyngor

- Deall y maes sy'n cael ei hyrwyddo ynglŷn â strategaethau a pholisïau'r Cyngor, arferion da, materion gwella, rhaglenni gwladol a buddiannau'r cylch dan sylw.
- Gallu ymgysylltu ag amryw gynghorwyr a swyddogion ynglŷn â'r maes dan sylw a gwrandao ar eu sylwadau am eu hanghenion.
- Gallu cynrychioli'r maes dan sylw yn y Cyngor.

Yn y gymuned

- Deall anghenion y gymuned ynglŷn â'r maes dan sylw.
- Gallu ymgysylltu â dinasyddion/cylchoedd cymunedol mewn materion sy'n berthnasol i'r maes hwnnw.
- Gallu arwain a chynnal mentrau lleol sy'n ymwneud â'r maes.
- Gallu cynrychioli safbwynt y Cyngor yn y gymuned ynglŷn â'r maes.